Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i bwysau costau byw
## Papur briffio

Mawrth 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: **GarethDavid.Thomas@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Tanysgrifiwch i ddiweddariadau**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i bwysau costau byw

## Papur briffio

Mawrth 2023

**Awdur:**
Gareth Thomas

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad .................... 1**

**2. Ynni .................... 1**

2.1. Prisiau ynni a chymorth gan y Llywodraeth .................... 1

2.2. Tlodi tanwydd .................... 2

2.3. Mesuryddion rhagdalu .................... 3

**3. Tlodi ac angyhydraddoldeb .................... 4**

3.1. Tlodi .................... 4

3.2. Ansicrwydd a thlodi bwyd .................... 5

3.3. Cydraddoldeb .................... 6

**4. Trafnidiaeth .................... 7**

**5. Plant a phobl ifanc .................... 8**

5.1. Gofal plant .................... 8

5.2. Prydau ysgol am ddim .................... 8

5.3. Pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. .................... 8

**6. Yr economi a chyflogau'r sector cyhoeddus .................... 9**

6.1. Y gost o gynnal busnes .................... 9

6.2. Cyflogau'r sector cyhoeddus .................... 10

**7. Gwasanaethau cyhoeddus ........................................................ 11**

7.1. Iechyd........................................................................................................ 11

7.2. Iechyd meddwl ....................................................................................... 11

7.3. Y pwysau ar lywodraeth leol a'r effaith ar aelwydydd......................12

# 1. Cyflwyniad

Ar 24 Mawrth, bydd **Pwyllgor Craffu'r Senedd ar Waith y Prif Weinidog** yn craffu ar ymateb y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, i bwysau costau byw. Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhai o'r materion allweddol y mae'n bosibl y byddan nhw'n cael eu trafod yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

# 2. Ynni

## 2.1. Prisiau ynni a chymorth gan y Llywodraeth

**Mae prisiau ynni wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2022**, yn y DU ac yn fyd-eang. Mae pris nwy yn uwch nag y bu erioed, ac mae prisiau trydan wedi codi law yn llaw â hynny. Penderfynodd Ofgem, y rheolydd ynni, gyfyngu ar y cyfraddau y gall cyflenwyr eu codi ar gwsmeriaid domestig drwy osod '**cap ar brisiau ynni**', a chaiff hyn ei adolygu bob tri mis. Wrth i brisiau cyfanwerthu gynyddu, cynyddodd Ofgem lefel y cap ar brisiau.

Wrth ymateb i'r penderfyniad i godi'r **cap ar brisiau, cyhoeddodd Llywodraeth y DU** y **Warant Pris Ynni fel mesur ychwanegol dros dro o fis Medi 2022**, gan ostwng prisiau ynni islaw'r cap ar brisiau. O dan y warant, bydd aelwyd arferol yn talu £2,500 y flwyddyn tan ddiwedd mis Mehefin 2023, ac yna'n talu £3,000 y flwyddyn tan ddiweedd mis Mawrth 2024.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau eraill hefyd, gan gynnwys:

- Y **Cynllun Cymorth Biliau Ynni** sy'n rhoi gostyngiad o £400 i aelwydydd cymwys i'w helpu dros fisoedd y gaeaf 2022 - 2023. Nid oes angen ei ad-dalu. Bydd **y gostyngiad olaf ar gael ar gyfer mis Mawrth 2023**;
- **Taliadau costau byw** i'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau penodol, pensiynwyr a phobl ag anableddau – bydd y rhain yn parhau yn **2023-24**; a
- **Taliadau Tanwydd Amgen** – sy'n rhoi £200 i aelwydydd sy'n dibynnu ar danwydd amgen, fel olew gwresogi, nwy petrolewm hylifedig (LPG), glo neu fiomas.

**Yn 2022-23**, mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo aelwydydd drwy gyflwyno nifer o gynlluniau, gan gynnwys **Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru**, gwerth £200; **y Cynllun Cymorth Costau Byw**, gwerth £150, i aelwydydd sy'n byw ym mandiau treth gyngor A-D a'r rhai sy'n cael cymorth o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor; **y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF)**; a'r **Cynllun Talebau Tanwydd**.

**Yn 2023-24**, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu arian ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae hefyd wedi blaenoriaethu'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol, y Grant Amddifadedd Disgyblion a chymorth digartrefedd er mwyn dyrannu arian yn ehangach i helpu gyda chostau byw.

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau â Chynllun Cymorth Tanwydd Cymru ar ôl 2022-23. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol **wrth y Pwyllgor Cyllid** fod cynllun tanwydd y gaeaf wedi costio £90 miliwn. Roedd yn fuddsoddiad enfawr, ac ni fyddai'n gallu ei fforddio'r flwyddyn nesaf.

Wrth ymateb i'r penderfyniad hwn, **dywedodd** Luke Young o Gyngor ar Bopeth Cymru ei fod yn rhagweld y bydd angen cynnal trafodaethau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf ynghylch rhoi cymorth brys i'r aelwydydd hynny a oedd wedi cael y cymorth hwn. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd **wedi dweud** mai mesurau dros dro i ddatrys problem llawer mwy yw'r cymorth a gynigir gyda chostau byw. Mae'n dweud bod angen defnyddio dulliau ataliol fel mesurau arbed ynni i helpu i gadw pobl rhag mynd i ddyled a wynebu caledi ariannol.

Ar 28 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol **ddatganiad ysgrifenedig** am newidiadau yn y modd y bydd y Gronfa Cymorth Dewisol yn gweithredu o fis Ebrill 2023 ymlaen. Dywedodd:

> …byddwn, o 1 Ebrill 2023 ymlaen, yn symud i un set o reolau ar gyfer yr holl Daliadau Cymorth mewn Argyfwng, a fydd yn sicrhau tegwch o ran mynediad at y Gronfa. Byddwn hefyd yn codi pob dyfarniad o'r Taliad hwnnw 11%. Bydd hyn yn golygu y gall pob unigolyn wneud cais am Daliad Cymorth mewn Argyfwng hyd at dair gwaith mewn cyfnod treigl o ddeuddeg mis, gyda bwlch o ddim ond saith diwrnod rhwng ceisiadau.

Dywedodd y Gweinidog y bydd y Taliad mwyaf bosibl yn codi i £111. **Ers 2020**, mae'r rhai sydd wedi dioddef oherwydd effaith y pandemig neu sydd wedi colli'r £20 ychwanegol yn eu Credyd Cynhwysol, wedi gallu hawlio 5 taliad o'r Gronfa Cymorth Dewisol mewn cyfnod treigl o 12 mis, ond nid fydd modd gwneud hynny mwyach.

## 2.2. Tlodi tanwydd

**Mae prisiau yn gwthio mwy o bobl yng Nghymru i dlodi tanwydd** (hynny yw, maent, yn ôl y diffiniad, yn gwario dros 10 y cant o'u hincwm ar gadw eu tŷ yn gynnes). **Mae aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn cael eu taro'n arbennig o galed**. Mae'r ffaith bod tai Cymru **ymhlith y lleiaf effeithlon o ran ynni yn Ewrop** yn dwysáu problemau costau ynni.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, sy'n cynnwys **cynllun Nyth** a'r rhaglen Arbed, sydd wedi dod i ben erbyn hyn. Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Ebrill 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch **cynigion ar gyfer y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Cynnes**. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad hwn eto. **Dywedodd** y Gweinidog Newid Hinsawdd ei bod yn disgwyl caffael rhaglen newydd a fydd yn seiliedig ar alw erbyn diwedd 2023, ac na fydd bwlch rhwng y rhaglen bresennol a'r rhaglen newydd.

Cyhoeddodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd **ei adroddiad ar dlodi tanwydd** ym mis Mai 2022. Mae'n cynnwys nifer o argymhellion ar y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Cynnes.

Yn ei **thystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar 1 Mawrth**, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd:

> I have to say, I don't think the Warm Homes programme is going to make any difference at all to the 0.5 million households currently in fuel poverty. Without a significant shift in the energy pricing mechanism, there's absolutely no way we're going to make a very big dent there, but it's very important to do it and it does do very good things, but there is an enormous problem with the energy market at the moment.

## 2.3. Mesuryddion rhagdalu

Math o **fesuryddion ynni domestig** yw mesuryddion rhagdalu. Mae'n rhaid i ddefnyddwyr dalu am ynni cyn ei ddefnyddio. Ym mis Ionawr 2023, dywedodd **Llywodraeth Cymru** fod tua 200,000 o aelwydydd yng Nghymru yn defnyddio mesuryddion rhagdalu ar gyfer eu prif gyflenwad nwy a thrydan, a bod hyn yn cynnwys:

> …tua 15% o bob aelwyd a 24% o denantiaid yn y sector rhentu preifat. Mae bron hanner tenantiaid tai cymdeithasol (45%) yn defnyddio mesuryddion rhagdalu.

Yn ôl **arolwg a gynhaliodd Cyngor ar Bopeth Cymru** yn ddiweddar, roedd 32% o ddefnyddwyr mesuryddion rhagdalu yng Nghymru wedi'u datgysylltu o'u cyflenwad ynni dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd nad oeddent yn gallu fforddio ychwanegu atynt. Mae **ymchwil gan y Resolution Foundation** yn dangos bod nifer anghymesur o'r rhai sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu ar yr incwm isaf.

Ysgrifennodd Grant Shapps AS, yr **Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y pryd, at gyflenwyr ynni** yn galw arnynt i roi'r gorau i osod mesuryddion rhagdalu drwy rym yng nghartrefi pobl sydd

â dyledion ynni, heb gymryd pob cam i gynorthwyo defnyddwyr sydd mewn trafferthion. **Dywedodd Ofgem ei fod yn bwriadu** cynnal **adolygiad pellach o gydymffurfiaeth y farchnad**, a fyddai'n canolbwyntio ar arferion cyflenwyr mewn perthynas â mesuryddion rhagdalu.

Roedd **32,790 o warantau wedi'u cyhoeddi ym mis Ionawr** i osod mesuryddion rhagdalu drwy rym. Ym mis Chwefror, **gofynnodd Ofgem i gyflenwyr roi'r gorau i'r arfer o osod mesuryddion drwy rym am y tro**, a chynnal adolygiad trylwyr o'u prosesau. Ers hynny, mae ynadon **wedi cael gorchymyn i roi'r gorau i gyhoeddi gwarantau** ar gyfer yr arfer hon yng Nghymru a Lloegr. Mae Ofgem hefyd wedi **galw ar i bob cyflenwr ddefnyddio'r saib yn y broses o osod mesuryddion** (a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023) i ystyried a oes angen gwrth-droi'r penderfyniad i osod unrhyw rai ohonynt. Bydd iawndal yn cael ei gynnig os na chafodd y rheolau eu dilyn.

Yn dilyn cyfarfod â chyflenwyr ynni ym mis Ionawr 2023, dywedodd **Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol,** fod y cyflenwyr ynni wedi cytuno i rannu data am nifer yr aelwydydd sy'n cael cymorth gyda'u biliau ynni a/neu'n cael eu trosglwyddo i fesuryddion rhagdalu, a'r rhesymau dros wneud hynny.

Mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd, **wedi cytuno i gynnal ymchwiliad byr i graffu ar yr hyn y mae deisebydd wedi ei ddisgrifio fel 'sgandal' ym maes mesuryddion rhagdalu** yng Nghymru.

# 3. Tlodi ac angyhydraddoldeb

## 3.1. Tlodi

Daeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid i'r casgliad **bod chwyddiant wedi effeithio ar aelwydydd incwm isel yn arbennig**. Roedd hyn i'w briodoli i'r cynnydd mewn costau ynni a bwyd, gan fod y teuluoedd hyn yn gwario cyfran uwch o'u hincwm ar y rhain. Ym mis Ionawr 2023 roedd aelwydydd a oedd ymhlith y 10% tlotaf yn y DU yn wynebu chwyddiant o 14%, o'i gymharu â chwyddiant o 10% i aelwydydd yn gyffredinol a 9% i'r aelwydydd a oedd ymhlith y 10% cyfoethocaf.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi clywed gan nifer o dystion am **"dlodi newydd" sydd wedi dod i'r amlwg dros y misoedd diwethaf**. Mae hyn yn cyfeirio at gynnydd yn nifer yr aelwydydd y mae angen cymorth arnynt am y tro cyntaf erioed. Yn ei dystiolaeth **i'r Pwyllgor**, dywedodd Robbie Davison o Well Fed:

> What's been interesting, and almost alarming at the same time, is that there are people now coming through the system who have never been in need of food aid or, if you like, poverty services at all… The issue for them, when you're talking to them and you're meeting them for the first time, is that there's a panic—there's a real panic—that they don't know what to do next because they've never been in the situation before.

Dywedodd Dr Victoria Winckler o Sefydliad Bevan **fod pwysau costau byw wedi effeithio'n arbennig ar ardaloedd gwledig** gan eu bod yn wynebu gwasgfa o dri chyfeiriad, sef costau uchel, incwm isel a llai o gymorth. Mae'n nodi bod aelwydydd mewn ardaloedd gwledig fel arfer yn gwario mwy ar drafnidiaeth a bwyd nag aelwydydd mewn ardaloedd trefol, a bod gweithwyr gwledig yn ennill llai na gweithwyr trefol. Mae Dr Winckler hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r cymorth a gynigir drwy gynlluniau Llywodraeth Cymru wedi bod yn ddigon i ganiatáu i aelwydydd brynu'r cyflenwad lleiaf bosibl o olew gwresogi.

## 3.2. Ansicrwydd a thlodi bwyd

**Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddata ar 14 Mawrth** a oedd yn dangos y canlynol:

- Pan ofynnwyd iddynt rhwng 22 Chwefror a 5 Mawrth 2023, dywedodd 49% o oedolion eu bod wedi prynu llai o fwyd yn ystod y bythefnos flaenorol.
- Dros yr un cyfnod, dywedodd 42% o oedolion eu bod wedi gwario mwy nag arfer pan oeddent yn siopa.
- **Rhwng 18 a 29 Ionawr 2023**, dywedodd 9% o oedolion eu bod, yn ystod y mis blaenorol, wedi poeni y byddai eu cyflenwadau bwyd yn dod i ben cyn y byddai ganddynt arian i brynu rhagor.

Dosbarthodd **banciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell** 77,000 o barseli bwyd i deuluoedd mewn argyfwng yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Medi 2022. Dyma'r nifer fwyaf erioed, ac mae'n gynnydd o 38% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021-22 ac yn gynnydd o 96% ers 2017-18.

Roedd adroddiadau yn y cyfryngau'n ddiweddar yn sôn am **brinder ffrwythau a llysiau ffres, archfarchnadoedd yn cyfyngu ar werthu rhai mathau o gynnyrch** a **phrisiau bwyd yn codi** yn y DU yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Holwyd **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig** yn ddiweddar am **ymchwil gan y Sefydliad Bwyd** yn dangos bod 18% o aelwydydd yng Nghymru yn wynebu ansicrwydd bwyd ym mis Medi 2022. Ymatebodd drwy ddweud bod y ddau brif faes a allai ddylanwadu ar y sefyllfa – polisi cyllidol a'r system fudd-daliadau – yn nwylo Llywodraeth y DU ac y dylai ddefnyddio'i chyllideb ar 15 Mawrth i wneud mwy ym maes costau byw.

## 3.3. Cydraddoldeb

Mae rhai grwpiau yn y gymdeithas yn fwy tebygol o berthyn i aelwydydd sydd ag incwm is na'r cyfartaledd, ac **yn fwy tebygol o fod mewn tlodi** ac sydd, gan hynny, mewn **mwy o berygl o ddioddef oherwydd y cynnydd mewn costau byw**.

Mae **Leonard Cheshire** wedi dweud bod **effaith pwysau costau byw** ar bobl ag anableddau wedi bod **yn aruthrol**. Mae llawer o bobl anabl yn dibynnu ar dacsis neu gerbydau wedi'u haddasu i deitho, **ac maent yn aml yn gorfod talu mwy am nwy a thrydan**. Mae **Leonard Cheshire yn dadlau** bod y taliad o £150 a gyhoeddwyd i helpu pobl anabl gyda chostau ynni yn rhy isel, ac nad yw'n ystyried y rhai ag anghenion ynni uwch.

Yn eu hymateb i **ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ynghylch y gyllideb ddrafft**, tynnodd Chwarae Teg sylw at y ffaith bod **pwysau costau byw yn effeithio'n anghymesur ar fenywod**. Maent yn dweud bod hyn i'w briodoli i anghydraddoldebau parhaus a sefyllfa anghyfartal menywod yn y farchnad lafur. Roedd yn effeithio'n arbennig ar grwpiau penodol o fenywod, meddent, fel mamau sengl, menywod ag anableddau a menywod o gymunedau ethnig lleiafrifol. Mae eu hadroddiad blynyddol ar **'Gyflwr y Genedl'** yn galw am weithredu tymor byr i gynorthwyo'r rhai y mae'r argyfwng yn effeithio fwyaf arnynt i sicrhau bod cynlluniau cymorth yn cael eu cynllunio gan ystyried anghenion menywod.

Daeth Ymmddiriedolaeth Runnymede **i'r casgliad** **fod pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol** 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi na phobl wyn, a bod y bwlch economaidd y mae cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn ei wynebu wedi ehangu ers argyfwng ariannol 2008. Daeth Ymddiriedolaeth Runnymede i'r casgliad fod 66% o bobl yn y DU sydd o dras Pacistanaidd neu Fangladeshaidd yn debygol o fod mewn tlodi tanwydd y gaeaf hwn, o'u cymharu â 32% o bobl wyn.

Mae costau ynni cynyddol wedi bod yn broblem barhaus i Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n byw mewn carafanau gan fod eu trefniadau ar gyfer defnyddio ynni'n aml yn wahanol i'r rhai sy'n byw mewn tai brics a morter. Yn ôl **adroddiad gan Friends, Families and Travellers**, yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn Lloegr, roedd nifer o aelwydydd yn defnyddio poteli nwy, ac maent yn amcangyfrif y gallent fod yn talu unrhyw beth rhwng £184 a hyd at £589 y mis ar nwy yn unig yn ystod gaeaf 2022.

Ymatebodd **y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol** i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y gyllideb ddrafft drwy nodi bod y Prif Weinidog wedi sefydlu Grŵp Arbenigol Annibynnol ar Gostau Byw. Rhagwelir y

bydd cyngor y Grŵp yn canolbwyntio ar y rhai y "mae'r cynnydd mewn costau byw wedi effeithio'n anghymesur arnynt".

# 4. Trafnidiaeth

Yn ôl **Sustrans Cymru**, mae pobl o bob rhan o Gymru yn wynebu tlodi trafnidiaeth, sy'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol, gan gynnwys pobl ifanc a phobl mewn ardaloedd gwledig.

Yn ôl **tystiolaeth gan Trafnidiaeth Cymru** nid oes car ar gael i oddeutu 13% o aelwydydd yng Nghymru, ac mae gan 25% o ddefnyddwyr bysiau anabledd neu salwch hirdymor. **Cynhaliodd Prifysgol De Cymru** ymchwil a ddangosodd mai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig roedd y dirywiad mwyaf mewn mynediad at wasanaethau oherwydd y pandemig.

Dywedodd **yr Ymgyrch dros Drafnidiaeth Well** wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith fod **effaith y negeseuon i osgoi trafnidiaeth gyhoeddus ar ddechrau'r pandemig yn parhau**. Mae'r diwydiant bysiau yng Nghymru wedi bod **yn cael cymorth i ailgodi ar ei draed ar ôl effeithiau'r pandemig**. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd y cymorth hwn yn dod i ben ym mis Mehefin o bosibl. Mae'r diwydiant bysiau wedi rhybuddio y gallai hyn **arwain at sefyllfa ansicr iawn ac y bydd rhai cwmnïau llai yn gadael** y farchnad.

Argymhellodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith **y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion i fynd i'r afael â thlodi trafnidiaeth** gan gynnwys tocynnau â chymhorthdal. Mewn ymateb, soniodd Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd **wrth y Pwyllgor yn ddiweddar** am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd:

> We've been working really hard to try and get a flat £1 bus fare, which I think would have been a significant intervention to have been able to have done, both to encourage modal shift and tackle social injustice … We haven't been able to do that, not because we don't want to do that.

Mae disgwyl i bris tocynnau trên a reoleiddir (**tua 45% o'r holl docynnau**) gynyddu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn hytrach na chodi prisiau tocynnau yn unol â chwyddiant, **mae cap ar y cynnydd ers 5 Mawrth, sef 5.9%**, yr un fath â'r **cynnydd yn Lloegr**.

# 5. Plant a phobl ifanc

## 5.1. Gofal plant

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ei **Chyllideb Gwanwyn 2023** y bydd yn cyflwyno darpariaeth gofal plant estynedig yn raddol o fis Ebrill 2024 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 38 awr o ofal plant yr wythnos am ddim i rieni cymwys mewn gwaith sydd â phlant rhwng 9 mis oed a 3 oed, a'r bwriad yw cwblhau'r broses o ehangu'r ddarpariaeth erbyn mis Medi 2025.

Fel rhan o'r **Cytundeb Cydweithio** rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, ymrwymwyd i ehangu gofal plant i bob plentyn 2 oed yng Nghymru. Mewn **datganiad i'r wasg** ym mis Chwefror 2023, dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd 4,500 o blant 2 oed ychwanegol yn cael gofal plant Dechrau'n Deg yn 2023-24 a 5,200 yn 2024-25.

## 5.2. Prydau ysgol am ddim

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol **ers dechrau'r pandemig**. Er y bu disgwyl i'r cynllun ddod i ben sawl gwaith, cafodd y cynllun ei ymestyn bob tro.

Ar 9 Mawrth, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** y byddai'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn parhau dros wyliau'r Pasg a hanner tymor y Sulgwyn. Dyrannwyd £9 miliwn at y diben hwnnw. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae hyn yn cael ei ariannu (ni chafodd y manylion eu cynnwys yng **Nghyllideb Derfynol 2023-24**).

Fel rhan o'i **Chytundeb Cydweithio** â Phlaid Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn oedran cynradd dros gyfnod o dair blynedd.

## 5.3. Pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Yn ei **hadroddiad blynyddol ar y Warant i Bobl Ifanc** (y Warant), dywedodd Llywodraeth Cymru fod y "to ifanc wedi wynebu amgylchiadau eithriadol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf". Mae'r adroddiad yn nodi ymchwil sy'n dangos bod dros 60% o bobl ifanc "yn ofni am ddyfodol eu cenhedlaeth", a bod un o bob tri yn pryderu na fydd eu rhagolygon gwaith "byth yn gwella yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw".

Y **Warant** yw'r amrywiaeth o gymorth sydd ar gael i helpu pobl ifanc (16-24

oed) ym myd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, er mwyn "sicrhau nad oes cenhedlaeth goll yng Nghymru.

Gwnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig argymhelliad ar y cyd yn dilyn eu gwaith o **graffu ar gyllideb ddrafft 2023-24**, sef:

> …dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r ddau bwyllgor ynghylch sut y mae Gweinidog yr Economi a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn cydweithio ar gymhellion i bobl ifanc aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Dylai hyn gynnwys unrhyw waith sy'n cael ei wneud o ganlyniad i'r cynnydd yng nghostau byw.

Mae **ymateb Llywodraeth Cymru** yn amlinellu newidiadau i raglen Twf Swyddi Cymru+, gan gynnwys dyblu'r lwfans hyfforddi i £60 yr wythnos, a lwfans prydau am ddim newydd, ymhlith pethau eraill. Mewn ymateb i argymhelliad arall, mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i adolygu lefel y cymorth sydd ar gael o dan y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, sydd wedi aros yr un fath, sef £30 yr wythnos ar gyfer dysgwyr cymwys, ers dros ddegawd.

# 6. Yr economi a chyflogau'r sector cyhoeddus

## 6.1. Y gost o gynnal busnes

**Mae busnesau, fel teuluoedd, yn wynebu costau ynni cynyddol dros y misoedd diwethaf**. Cyn cyflwyno'r **Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni** nid oedd cap ar brisiau ynni annomestig, yn wahanol i'r cap ar brisiau ynni domestig a gyflwynwyd yn 2019. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru **wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** ym mis Rhagfyr fod 1 o bob 7 busnes bach yn ystyried cau, dirwyn i ben, gwerthu, neu ailstrwythuro eu busnes yn llwyr er mwyn medru parhau, dim ond oherwydd y costau cynyddol.

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fanylion y **Cynllun Gostyngiad Biliau Ynni** ar gyfer cwsmeriaid annomestig fel busnesau, cyrff yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Bydd y cynllun hwn ar waith rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, a bydd yn disodli'r **Cynllun Rhyddhad Biliau Ynni** presennol.

O dan y cynllun newydd, bydd defnyddwyr annomestig cymwys yn awr yn cael gostyngiad fesul uned yn eu biliau ynni yn ystod y cyfnod o 12 mis rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, hyd at uchafswm penodol. Bydd cymorth ychwanegol i ddiwydiannau dwys o ran ynni, a bydd yn rhaid i fusnesau wneud cais am y cymorth hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn **pryderu** am lefel y cymorth y bydd y cynllun newydd yn ei gynnig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig **rhyddhad ardrethi busnes o 75% yn 2023-34** i fusnesau yn y sectorau manwerthu, twristiaeth a lletygarwch, hyd at uchafswm o £110,000 o rhyddhad ar gyfer yr holl eiddo sydd gan fusnes.

Mae Banc Datblygu Cymru wedi lansio'r **Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd**, gwerth £10 miliwn, yn ddiweddar, i helpu busnesau i ddatgarboneiddio a lleihau eu costau ynni. Bydd y gronfa yn cynnig benthyciadau o rhwng £1,000 ac £1.5 miliwn. Mae swyddogion Banc Datblygu Cymru yn disgwyl helpu tua 170 o fusnesau drwy'r cynllun dros y tair blynedd nesaf.

## 6.2. Cyflogau'r sector cyhoeddus

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **godiad cyflog o £1,400 ar gyfer 2022-23** i staff y GIG a gyflogir o dan amodau a thelerau'r Agenda ar gyfer Newid. Mae hyn yn gynnydd cyfartalog o 7.5% i staff sy'n cael y cyflogau isaf a 4% i staff sy'n ennill cyflogau uwch.

Hefyd ym mis Gorffennaf 2022, dywedodd **Gweinidog y Gymraeg ac Addysg** ei fod wedi  derbyn argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru i roi codiad cyflog o 5% i athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, a 3.5% ar gyfer 2023/24.

Cynigiodd Llywodraeth Cymru godiad cyflog ychwanegol i **staff GIG Cymru** ac i **athrawon** ym mis Chwefror 2023.  Roedd y cynigion hyn 3% yn uwch na'r cynigion blaenorol, a byddai 1.5% o'r codiad yn cael ei ddwyn ymlaen i 2023-24 a byddai 1.5% yn daliad untro.

Yn ei **Hail Gyllideb Atodol 2022-23**, dyrannodd Llywodraeth Cymru £120 miliwn i bortffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a £32 miliwn i bortffolio'r Gymraeg ac Addysg er mwyn ariannu setliadau posibl ar gyfer staff ac athrawon ar gyfer 2022-23.

Ar 28 Chwefror, gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **ddatganiad ysgrifenedig** yn cyhoeddi bod yr undebau yn Fforwm Partneriaeth Cymru wedi pleidleisio o drwch blewyn i dderbyn y codiad cyflog i weithwyr y GIG, er bod Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn un o'r undebau a **wrthododd y cynnig**. Wrth ateb i gwestiwn amserol ar 1 Mawrth, gwnaeth y Gweinidog **ddatganiad** y bydd Llywodraeth Cymru yn "y byddwn ni'n ail-drafod â'r undebau ynglŷn â sut y

byddwn ni'n gwneud yr implementation o'r arian yma".

Ar 10 Mawrth, cyhoeddodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) ei bod **yn atal ei streic arfaethedig** i ystyried **cynnig Llywodraeth Cymru** o roi codiad cyflog o 8% ar gyfer 2022-23 ( 6.5% ohono'n gyfunedig a 1.5% yn daliad untro), a chodiad cyflog o 5% wedi'i ariannu'n llawn yn 2023-24.  Mae egwyddor 'dim niwed' ynghlwm wrth y cynnig hefyd, felly os ceir setliad cyflog uwch yn Lloegr, bydd y cynnig yng Nghymru yn cyfateb i hwnnw. **Dywedodd** Llywodraeth Cymru fod yn rhaid dod i gytundeb erbyn 17 Mawrth er mwyn i athrawon elwa o godiad cyflog y flwyddyn ariannol hon.

# 7. Gwasanaethau cyhoeddus

## 7.1. Iechyd

Mae'r **argyfwng costau byw presennol yn argyfwng iechyd cyhoeddus**, a gallai ei effeithiau fod cyn waethed ag effeithiau pandemig Covid-19, yn ôl adroddiad newydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn arwain at gwymp mewn safonau byw a fydd yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, a bydd cyflyrau iechyd presennol yn gwaethygu.

Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, **roedd 30% o farwolaethau ychwanegol dros y gaeaf yng Nghymru i'w priodoli i'r ffaith bod tai mor oer**, ac roedd 10% i'w priodoli'n unionyrchol i dlodi tanwydd. Mae marwolaethau ychwanegol dros y gaeaf yn debygol o gynyddu gan fod llai o bobl yn gallu cynhesu eu cartrefi yn ddigonol.

Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cadarnhau bod **cartrefi oer (18˚C neu is) yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd negyddol**, gan gynnwys pwysedd gwaed uwch (ffactor sy'n cynyddu'r risg o glefyd cardiofasgwlaidd), effeithiau anadlol, perfformiad corfforol is (ffactor sy'n cynyddu'r risg o syrthio ac anafiadau cysylltiedig â syrthio), a **chyflyrau arthritig a rhiwmatig**. Mae pobl hŷn, plant a'r rhai sydd â chyflyrau sy'n bod eisoes neu sydd ag anableddau **yn fwy agored i'r effeithiau iechyd cysylltiedig â chartrefi oer**, ac maent hefyd yn treulio mwy o amser gartref hefyd.

## 7.2. Iechyd meddwl

Mae poeni am ddyledion yn gysylltiedig â **gorbryder, iselder a meddwl am hunanladdiad.** Mae pobl sydd ag iechyd meddwl gwael **yn fwy tebygol o fod â llai o incwm** ac, o ganlyniad, gall hynny arwain at straen ariannol a phroblemau iechyd.

**Yn ôl adroddiadau yn y cyfryngau'n ddiweddar**, mae elusennau'n clywed bod mwy o bobl â chyflyrau cronig yn ystyried hunanladdiad gan na allant ymdopi â'r costau cynyddol, ac mae'r straen yn aml yn effeithio ar eu cyflwr ac yn gwaethygu symptomau.

Gall pobl sy'n byw mewn tlodi wynebu lefelau **cyson uchel o straen**, er enghraifft, maent yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd, mae eu cartrefi'n orlawn neu'n anniogel, mae arnynt ofn trosedd neu mae eu hiechyd corfforol yn gymharol wael. Mae tlodi'n **amlwg yn gysylltiedig â nifer o broblemau iechyd meddwl**, gan gynnwys sgitsoffrenia, iselder a gorbryder, a chamddefnyddio sylweddau.

Er enghraifft, gall tlodi **achosi salwch meddwl yn ogystal â bod yn ganlyniad ohono**. Er enghraifft, pan fydd symptomau difrifol salwch meddwl a'r stigma sydd ynghlwm wrtho yn effeithio ar incwm person a'i allu i weithio.

## 7.3. Y pwysau ar lywodraeth leol a'r effaith ar aelwydydd

**Mae sefyllfa ariannol cyrff llywodraeth leol yn fregus**, a disgwylir pwysau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **yn pwysleisio** bod hyn wedi effeithio ar wasanaethau, o wasanaethau casglu gwastraff i iechyd yr amgylchedd, ac y bydd prinder arian yn parhau i effeithio arnynt. Oherwydd costau uchel, mae awdurdodau'n ei chael yn anodd cadw a recriwtio staff a chynnal gwasanaethau. Cafodd y pandemimg effaith hynod niweidiol ar wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'n anodd iawn i awdurdodau lleol ddenu staff gofal cymdeithasol newydd a chadw eu staff presennol.

Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi penderfynu cynyddu'r dreth gyngor y mae aelwydydd yn ei thalu. Er gwaethaf y cynnydd yn eu **cyllid drwy'r setliad llywodraeth leol**, a'r incwm ychwanegol a gaiff ei godi o ganlyniad i'r cynnydd yn y dreth gyngor, mae'r angen i gyflwyno rhagor o doriadau a newidiadau i wasanaethau lleol yn parhau.

Mae awdurdodau lleol, fel perchenogion tai, yn wynebu cynnydd sydyn yng nghost ynni, cyfraddau llog ac effaith chwyddiant ar gyflogau. Bydd bil y dreth gyngor ar gyfer eiddo cyffredin ym Mand D **yn cynyddu** **5.5 y cant** ar gyfartaledd. Pleidleisiodd Cyngor Conwy o blaid cynnydd o 9.9 y cant yn ei dreth gyngor, sef y cynnydd mwyaf yng Nghymru. Yn Nhorfaen y mae'r cynnydd lleiaf, sef 6.5 y cant.